

Snog – Caryl Parry Jones

Sa i'n gwybod a alla i wneud e,
Sa i'n gwybod a ydw i'n moyn,
Ond os na wna ei e'n gloi wi mewn
trwbwl,
Fydda i'n ffili byw yn fy nghroen!

Ma' Gwen 'di gwneud e ers ache,
A ma' Ffion 'di dechre ers mis,
A wi'n credu bod Catrin 'di mentro
'Da bachan ffit o'r enw Rhys.

Wi di rhannu ambell i gusan
Ar y boch a hyd yn oed ar y geg,
A hynny mewn parti Nadolig
'da Cai Tomos o Flwyddyn Deg.

Ond ma' snog... wel ma' snog yn beth
arall,
Ma' fe'n ddechre cyfnod yn wir,
Ac yn ddiwedd ar un arall
Ac ma'r cyfnod bach nesa MOR hir!

Wi 'di gweld nhw tu draw i'r cae whare,
Wi 'di gweld nhw â'm llyged fy hun,
Ac ma' edrych ar gwpwl yn snogo
Fel edrych ar Washin Mashîn!

Ma'u penne nhw'n troi fel meline
A'u llyged ar gau i'r holl fyd,
A'u cege ar agor fel cywion
Yn aros i'r fam ddod â phryd.

Nawr, beth wi fod gwneud gyda 'nhrwyn i
Pan ddaw fy niwrnod mawr?
Wi'n 'i gadw fe'n pwynto syth ymlaen?
Neu ei droi sha'r gorllewin neu'r llawr?

Wi'n gweud wrthoch chi mae e'n
benbleth?
Ma' fe'n bwyse rhy drwm o 'mlaen.
A ma'n rhaid i fi lico rhywun ddigon,
Jiw! Dyw snogo yn ddim byd ond straen!

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

Brys – Ken Griffiths

Rown am gael gorffen ysgol
Ac am gael gyrru car,
A phrofi'r cariad cyntaf
A phrynu peint o'r bar,
Hyn oedd yn fwrlwm yn fy ngwaed
A'r cloc o hyd yn llusgo'i draed.

Ac wedi blasu'r cyfan
Wrth fyned ar fy hynt
Er ceisio eu harafu
Mae'r dyddiau'n mynd yn gynt,
Mi lusgaf i fy ngwely toc
Heb awydd mwy i weindio'r cloc.

Idris Reynolds (gol.), *Y Grefft o Dan-y-groes* (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

Bws Ysgol – Gwion Hallam

Mor rhyfedd sut all taith
bob dydd
mewn bws
droi'n artaith byw,

a sut all croeso'r
seddau mawr cartŵn
droi'n hunllef real iawn

i un.

Mae'n eistedd hefo'i
fag fel ffrind
a'i groen yn gwrando'n chwys;

fel milwr ffilm sy'n cofio'r sgript
mae'n disgwyl bang y bom,

yn paratoi at glec
grenêd y geiriau.

Oi gay-boy? Ma' pawb yn gwbod!

Hei o 'ma, s'dim lle i homos!

Ocê, os ti'n gê dwed y gwir!

Nid gofyn ond dweud
a neb eisiau ateb –

haws chwerthin a chwylan
ar gelwydd sedd gefn
na gwrando ar y gwir:

gwell closio at y bwli
na'r boi sy'n diodde
ei boen.

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

Ar y Ffôn – Iwan Llwyd

Maen nhw'n tynnu'r hen focsys ffôn i lawr,
un wrth un,
y cromfachau cochion
oedd ymhob pen y pentref:

er mai dim ond lle i un oedd ynddyn nhw,
fel bocs ffôn Dr Who
roedd yn rhyfedd faint o hogia
allai glustfeinio

a faint o genod allai hel yno
i gario clecs
a chwythu cusanau i lawr y lein:
cynnig cysgod mewn cawod law

a chornel ar noson ddileuad,
ac ar glawr melyn y llyfr
roedd cyfle i dorri enw
a chariad cyntaf:

erbyn hyn mae gan bawb ei ffôn
pob un a'i felodi ei hun,
a dim sôn am harmoni –
ac ar drên neu fws dyna gantata

fel Tŵr Babel o leisiau,
ac mae'r pentref yn ddigromfachau
yn graddol fynd yn un â'r nesa',
a'r blychau cochion mewn amgueddfa

a'r genod a'r hogia yn tyfu'n hŷn,
heb le i rannu cyfrinach,
pob un wrtho'i hun,
yn pwysu ar ei ffôn.

Myrddin ap Dafydd (gol.), *Pac o Feirdd* (Gwasg Carreg Gwalch, 2002)

Linda Waz Ere – Aled Lewis Evans

Linda,
rwy'n dy gyfarch rŵan
er nad ydw i yn dy 'nabod di.

Yma ar wal y Prom
yn y Rhyl
syllaf ar d'ymgais
at anfarwoldeb graffiti.

Rhyw ddydd pan oedd y semént
yn feddal
a thithau awydd gadael d'ôl
ar yr hen fyd 'ma,
rhoist dy fys
i fandaleiddio'r hen semént cynnes:
'Linda waz ere',
a dyna sut yr ydw i'n dy 'nabod di
i'th gyfarch.

Roeddwn am i ti wybod
ein bod ni i gyd yr un fath
yn yr hen fyd 'ma –
eisiau gadael rhyw argraff
ar ein marwoldeb.

Wn i ddim o'th hanes, Linda,
dim ond mai hanes y ddynoliaeth wyt ti,
heddiw.

Aled Lewis Evans, *Sglefrfyreddio* (Cyhoeddiadau Barddas, 1994)